| Welsh | | English |
|---|---|---|
| | | |
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **2000 Rhif (Cy. )**<br><br>**ADDYSG, CYMRU** | | **2000 No. (W. )**<br><br>**EDUCATION, WALES** |
| **Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000** | | **The Foundation Subject (Amendment) (Wales) Order 2000** |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn) | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>(This note is not part of the Order) |
| | | |
| Mae adran 354 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhestru'r pynciau sy'n bynciau craidd at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7-9 yn fras), mae un o'r pynciau craidd a restrir yn yr adran yn iaith dramor fodern a bennir drwy Orchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 354 fel nad oes angen bellach i ieithoedd tramor modern gael eu pennu mewn Gorchymyn o dan yr adran honno. Yn lle hynny, caiff y Gorchymyn ddarparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol. | | Section 354 of the Education Act 1996 lists the subjects which are foundation subjects for the purposes of the National Curriculum. For pupils at Key Stage 3 (broadly Years 7-9), one of the foundation subjects listed in the section is a modern foreign language specified in an Order of the National Assembly. This Order amends section 354 so that modern foreign languages need no longer be specified in an Order under that section. Instead, the Order may provide that any modern foreign language is to constitute a modern foreign language for the purposes of the National Curriculum. |

| | | |
|---|---|---|
| Hefyd caiff Gorchymyn o dan yr adran fel y'i diwygiwyd - | | An Order under the section as amended may also - |
| (a) bennu'r amgylchiadau lle na ddylid trin iaith fel pwnc craidd, a | | (a) specify circumstances in which a language is not to be treated as a foundation subject; and |
| (b) darparu mecanwaith ar gyfer penderfynu unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch a yw iaith benodol yn iaith dramor fodern. | | (b) provide a mechanism for deciding any question arising as to whether a particular language is a modern foreign language. |
| Gwelir testun adran 354(1) i (5) fel y'i diwygiwyd yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn. | | The text of section 354(1) to (5) as amended is set out in Schedule 2 to the Order. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **2000 Rhif (Cy. )**<br><br>**ADDYSG, CYMRU** | | **2000 No. (W. )**<br><br>**EDUCATION, WALES** |
| **Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000** | | **The Foundation Subject (Amendment) (Wales) Order 2000** |

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud 2000*<br><br>*Yn dod i rym 20 Gorffennaf 2000* | | *Made. . . 2000*<br><br>*Coming into force .20 July 2000* |
| Cyflawnwyd y gofynion a nodir yn Atodlen 1. | | The requirements set out in Schedule 1 have been fulfilled. |
| Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 354(6) o Ddeddf Addysg 1996***(a)*** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru***(b)***, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol y gosodwyd drafft ohono gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad: | | In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 354(6) of the Education Act 1996**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)** , the National Assembly for Wales makes the following Order a draft of which was laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly: |
| **Enwi, cychwyn a dehongli** | | **Citation, commencement and interpretation** |
| **1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 20 Gorffennaf 2000. | | **1.**-(1) This Order may be cited as the Foundation Subject (Amendment) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 20st July 2000. |
| 2. Yn y Gorchymyn hwn-<br><br>Ystyr "yr Awdurdod" *("the Authority")* yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru***)(c)***;<br><br>Ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" *("the National Assembly")* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac | | (2) In this Order -<br><br>"the Act" *("y Ddeddf")* means the Education Act 1996;<br><br>"the Authority" *("yr Awdurdod")* means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales**(c)**; and<br><br>"the National Assembly" *("y* |

| | | |
|---|---|---|
| Ystyr "y Ddeddf" *("the Act")* yw Deddf Addysg 1996. | | *Cynulliad Cenedlaethol"* means the National Assembly for Wales*)*. |
| **Diwygio** | | **Amendment** |
| **2.** Ac eithrio i'r graddau y datganwyd y byddant yn cael effaith yn Lloegr yn unig, bydd i'r diwygiadau i adrannau 354 a 580 o'r Ddeddf fel a nodwyd yng Ngorchymyn Pynciau Craidd (Diwygio) (Lloegr) 2000 **(ch)**, effaith yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r diwygiadau pellach a nodir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn. | | **2.** The amendments to sections 354 and 580 of the Act as set out in the Foundation Subject (Amendment) (England) Order 2000**(d)** shall, except to such extent as they are expressed to have effect only in England, have effect in Wales subject to the further amendments set out in article 3 of this Order. |
| **3.** Mae'r diwygiadau pellach y cyfeirir atynt yn erthygl 2 fel a ganlyn - | | **3.** The further amendments referred to in article 2 are as follows - |
| a. yn is-adran (4) fel y'i hamnewidwyd, yn lle paragraff (b) rhoddir – | | (a) in the substituted subsection (4), for paragraph (b) substitute - |
| "(b) in relation to schools in Wales, means a modern foreign language specified in an order of the National Assembly for Wales or, if the order so provides, any modern foreign language.", a | | "(b) in relation to schools in Wales, means a modern foreign language specified in an order of the National Assembly for Wales or, if the order so provides, any modern foreign language.", and |
| • yn is-adran (5) fel y'i hamnewidwyd ar ôl "(4)(a)" mewnosoder "or (b)". | | (b) in the substituted subsection (5) after "(4)(a)" insert "or (b)". |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Gwelir testun adran 354(1) i (5) o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn y cyfeirir ato yn erthygl 2 ac fel y'i diwygir ymhellach gan y Gorchymyn hwn, yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn. | | **4.** The text of section 354(1) to (5) of the Act as amended by the Order referred to in article 2 and as further amended by this Order, is set out in Schedule 2 to this Order. |

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998***(d)***

Signed on behalf of the National Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(e)**

2000

2000

The Presiding Officer of the National Assembly

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**ATODLEN 1**

**SCHEDULE 1**

**Gofynion o dan adran 368 o Ddeddf Addysg 1996(dd)**

**Requirements under section 368 of the Education Act 1996(f)**

**Adran 368(2)**

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynnig i'r Awdurdod gan roi cyfarwyddiadau amser yngln â'r cyfnod yr oedd yr Awdurdod i roi adroddiad***(e)***.

**Section 368(2)**

The Secretary of State referred a proposal to the Authority and gave directions as to the time within which the Authority were to report **(g)**.

**Adran 368(3)**

Hysbysodd yr Awdurdod y cynnig i'r cyrff a'r personau y cyfeirir atynt yn adran 368(3) o Ddeddf Addysg 1996 a rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno tystiolaeth a sylwadau ar y materion a oedd yn codi.

**Section 368(3)**

The Authority gave notice of the proposal to the bodies and persons referred to in section 368(3) of the Education Act 1996 and gave them a reasonable opportunity of submitting evidence and representations as to the issues arising.

**Adran 368(5)**

Cyflwynodd yr Awdurdod ei adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Section 368(5)**

The Authority submitted its report to the National Assembly for Wales.

**Adran 368(5)**

Trefnodd yr Awdurdod gyhoeddi'r adroddiad.

**Section 368(5)**

The Authority arranged for the report to be published.

**Adran 368(6) a (7)**

Cyhoeddwyd drafft o'r Gorchymyn a'r ddogfen gysylltiedig a chaniatawyd cyfnod o fis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau yngln â materion a oedd yn codi.

**Section 368(6) and (7)**

A draft of the Order and of the associated document was published and a period of one month allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.

**Adran 368(6) a (7)**

Anfonwyd copi o'r Gorchymyn drafft a'r ddogfen gysylltiedig i'r Awdurdod ac at bob un person yr ymgynghorodd yr Awdurdod â hwy a chaniatawyd cyfnod o fis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau yngln â marterion a oedd yn codi.

**Section 368(6) and (7)**

A copy of the draft Order and associated document was sent to the Authority and to each of the persons consulted by the Authority and a period of one month was allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.

**ATODLEN 2 Erthygl 4**

**Testun adran 354(1) i (5) y Ddeddf fel y'i diwygiwyd**

**SCHEDULE 2 Article 4**

**Text of section 354(1) to (5) of the Act as amended**

"(1) The following are the core subjects -

(a) mathematics

(b) English;

(c) science; and

(d) in relation to schools in Wales which are Welsh-speaking schools,

Welsh.

(2) In relation to schools in England, the following are the other foundation subjects -

(a) technology;

(b) physical education;

(c) in relation to the first, second and third key stages -

(i) history;

(ii) geography;

(iii) art and design;

(iv) music;

(d) in relation to the third and fourth key stages -

(i) citizenship;

(ii) a modern foreign language.

(3) In relation to schools in Wales, the following are the other foundation subjects -

(a) physical education;

(b) Welsh, if the school is not a Welsh-speaking school;

(c) in relation to the first, second and third key stages -

(i) history;

(ii) geography;

(iii) art;

(iv) music;

(v) technology;

(d) in relation to the third key stage, a modern foreign language.

(4) "Modern foreign language" -

(a) in relation to schools in England, means a modern foreign language specified in an order of the Secretary of State, or, if the order so provides, any modern foreign language; and

(b) in relation to schools in Wales, means a modern foreign language specified in an order of the National Assembly for Wales or, if the order so provides, any modern foreign language.

(5) An order under subsection (4)(a) or (b) may -

(a) specify circumstances in which a language is not to be treated as a foundation subject;

(b) provide for the determination under the order of any question

arising as to whether a particular language is a modern foreign language.".